CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 15fed Mehefin 2021

Teitl: Llety Diogel ar gyfer Plant ag Anghenion Cymhleth

Pwrpas yr adroddiad: Cymeradwyaeth ar gyfer cynllun rhanbarthol i ddatblygu llety diogel ar gyfer plant ag anghenion cymhleth

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Alun Williams

Cyflwyniad

Mae datblygu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth wedi bod yn gam gweithredu o flaenoriaeth o fewn rhaglen waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ers 2019 yng ngoleuni prinder darpariaeth o'r fath yn y rhanbarth a ledled Cymru a'r galw nas diwallwyd yn rhanbarth Gorllewin Cymru.

Roedd adroddiad y Comisiynydd Plant 'Dim Drws Anghywir' yn nodi disgwyliad clir y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn cydweithio i ddatblygu ystod o wasanaethau cymorth integredig i blant ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol cymhleth. Mae hyn yn cynnwys cynyddu argaeledd cyfleusterau preswyl diogel ar gyfer carfan benodol o blant lle mae gofal gartref gyda'u teuluoedd neu gyda gofalwyr maeth wedi torri lawr neu ddim yn briodol.

Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud datblygu llety preswyl diogel i blant yn faen prawf ar gyfer ceisiadau o fewn cyllid cyfalaf a refeniw ICF.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, ar unrhyw un adeg, mae gan Gyngor Sir Ceredigion tua 3 - 5 o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl ac mae'r lleoliadau hyn i gyd y tu allan i'r sir ac maent hefyd yn aml iawn y tu allan i ranbarth Gorllewin Cymru. Dylid nodi hefyd bod lleoliadau yn y sector preifat neu annibynnol yn gostus iawn gyda'r nod o sicrhau elw i'r cwmni; gall taliadau am y lleoliad yn unig amrywio rhwng £5,000 a £10,000 neu hyd yn oed yn uwch ar gyfer plant mwy cymhleth ar sail wythnosol. Codir costau ychwanegol yn aml am ddarpariaeth addysgol neu ddarpariaeth therapiwtig ac mae costau teithio ac amser hefyd i staff yr awdurdod lleol sy'n ymwneud â'r plentyn. Ar adegau, gall pryderon godi hefyd ynghylch ansawdd ac addasrwydd parhaus lleoliadau a'r canlyniadau hirdymor i blant.

Mae prinder argaeledd lleoliadau preswyl wedi arwain, ar adegau, at rai amgylchiadau anodd a heriol iawn o ran diogelu a diwallu anghenion plant Ceredigion i dderbyn gofal a gofalu amdanynt yn briodol tra'n aros i leoliadau addas gael eu hadnabod.

Mae datblygu'r cynllun rhanbarthol hwn yn darparu mwy o botensial i blant dderbyn

cymorth o ansawdd gwell yn nes at adref gyda chydweithrediad agos cyrff cyhoeddus ac y gellir dychwelyd adref neu i ddarpariaeth amgen yng Ngheredigion yn llwyddiannus yn gynt gyda chysylltiadau'n cael eu cynnal â theulu a rhwydwaith lleol y plentyn.

Cynnig Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Yn ddiweddar, drafftiodd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru gynigion i Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys ceisiadau am gyllid ICF cyfalaf a refeniw er mwyn datblygu darpariaeth breswyl ranbarthol canolfan ac adain gyda'r nod o ddarparu gofal, cymorth a llety arbenigol i blant â'r anghenion mwyaf cymhleth mewn canolfan ranbarthol fach (addas ar gyfer 4 neu 5 o blant) ynghyd a datblygu darpariaeth fwy lleol o fewn y sir (addas ar gyfer 1 neu 2 o blant) yn unol ag angen lleol i weithredu fel darpariaeth camu-lawr.

Mae model arfaethedig darparu gofal cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol ynghyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn seiliedig ar ddarparu cymorth arbenigol i asesu a sefydlogi anghenion emosiynol, ymddygiadol, corfforol ac iechyd meddwl y plentyn mewn amgylchedd diogel a thrawma - gwybodus ac i weithio ar y cyd gyda chefnogaeth cymunedol a theuluoedd a gofalwyr tuag at ailuno ac ailgyflwyno diogel i ddarpariaeth camu-lawr neu adref lle bynnag y bo modd.

Hysbyswyd Uned Fusnes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yr wythnos diwethaf fod y Datganiad o Ddiddordeb mewn llety diogel yn llwyddiannus a bod dyfarniad o £1.7 miliwn o gyllid cyfalaf a dyfarniad o £708,220 o gyllid refeniw i ysgogi'r prosiect yn ystod 2021/22 wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog. Mae'r dyfarniad cyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer prynu eiddo'r ganolfan ganolog ynghyd â'r potensial i gyfalaf gael ei dynnu i lawr (hyd at £450,000) gan yr awdurdodau lleol unigol ar gyfer prynu darpariaethau camu-lawr mwy lleol ym mhob un o'r tair sir.

Yng ngoleuni'r dyfarndal, mae grŵp prosiect rhanbarthol penodol a grwpiau gorchwyl yn cael eu cynnal gan Uned Fusnes y Bwrdd Partneriaethau Gwledig i reoli datblygiad y cynllun yn y dyfodol a chynrychiolir Cyngor Sir Ceredigion gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Corfforaethol Arweiniol Porth Cynnal ynghyd â swyddogion perthnasol eraill. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Arweiniol dynodedig. Caiff swyddogaethau a chyfrifoldebau at y dyfodol eu diffinio a'u cadarnhau mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Bydd Grŵp Canlyniadau Plant Rhanbarthol y Bwrdd yn goruchwylio adroddiadau cynnydd y cynllun a bydd yn cyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y mae Aelod Cabinet Porth Cynnal yn eu mynychu.

Yn lleol, mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr achos busnes o ran elfen adain y cynllun gyda phenodiad diweddar swyddog prosiect ICF a gyda chydweithio agos ar draws y model Gydol Oed a Llesiant a gyda'r Gwasanaeth Ysgolion ynghyd ag adrannau perthnasol eraill.

Y Camau Nesaf

• Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn mynd rhagddo o fewn yr amserlen angenrheidiol, bydd angen adnabod a phrynu eiddo ar frys oddi ar y farchnad agored sydd yn addas ac sydd yn cwrdd â'r gofynion rheoliadol i sefydlu'r ganolfan ranbarthol.

• Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'w ystyried gan y tri Awdurdod Lleol a'u Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â phryniant, perchnogaeth, llywodraethant a rheolaeth y cyfleuster canolog a'r cynllun.

• Bydd angen cytuno ar fformiwla ariannu'r ganolfan ganolog yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a fydd yn cymryd i ystyriaeth yr angen am gynnal y ddarpariaeth a'r defnydd ohoni ac yn seiliedig ar fodel buddsoddi i arbed ar gyfer yr Awdurdodau Lleol.

• Mae'r achos busnes dros ddatblygu llety preswyl adain â chamu-lawr yng Ngheredigion yn cael ei ddrafftio a chaiff ei drafod ym Mhanel Rheoli Prosiect Corfforaethol Ceredigion. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen mewn papur ar wahân i'r Grŵp Arweinyddiaeth ac yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r Cabinet yn ôl y gofyn.

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam	Dyma gynllun rhanbarthol a bydd yr AEI yn cael ei ystyried ar y sail hwnnw.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:***	
	Hirdymor:	cynllun 5 mlynedd
	Cydweithio:	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
	Cynnwys:	
	Atal:	Atal plant rhag cael eu lleoli allan o'r Rhanbarth/allan o'r Sir
	Integreiddio:	Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Argymhelliad	Ceisir cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynllun i ddatblygu darpariaeth rhanbarthol llety diogel yn benodol ar gyfer defnydd cyllid ICF ar gyfer prynu a sefydlu canolfan llety diogel rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	I roi i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol y mandad gwleidyddol i gytuno gyda datblygiad y ganolfan rhanbarthol
Trosolwg a Chraffu:	
Fframwaith Polisi:	Plant sy'n Derbyn Gofal
Blaenoriaethau Gorfforaethol:	Blaenoriaeth 3
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Ganolfan Rhanbarthol i'w dderbyn ac mae'r fformiwla cyllido ar gyfer y ganolfan, costau gwasanaeth a lleoliadau i'w gytuno. Bydd Cyngor Sir Gar yn gweithredu pryniant y ganolfan ganolog fel yr Awdurdod Arweiniol

Goblygiadau cyfreithiol:	Bydd rhaid i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y ganolfan rhanbarthol gael ei gytuno gan Wasanaethau Cyfreithiol a bydd yn delio a materion perchnogaeth a threfn reoli a rheolaeth
Goblygiadau staffio:	. Bydd angen i'r ganolfan ganolog a'r adain gael eu staffio yn unol a gofynion rheoliadol. Bydd staff yr hwb ganolog yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Gar a Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Goblygiadau eiddo / asedau:	Rhagwelir y bydd Cyngor Sir Gar yn prynu'r ganolfan ganolog gyda chyllid ICF. Bydd materion perchnogaeth a rheolaeth yn cael eu trafod yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Bydd datblygiad yr adain yn cael ei ystyried ar wahân.
Risg(iau):	Os na eith y cynllun yn ei flaen bydd risg na allwn gyfarfod a'n dyletswyddau statudol i ddarparu lleoliadau addas i blant sydd angen derbyn gofal. Bydd y risgiau mewn perthynas a rheoli y ganolfan ganolog yn cael eu hadnabod a rheoli trwy bolisïau a chanllawiau y cyfleuster.
Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
Papurau Cefndir:	
Atodiadau:	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Siân Howys
Swyddog Adrodd:	Sian Howys
Dyddiad:	Mehefin 7fed 2021